

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mis Hydref 2012

Rhif 382



## April Jones

Mae'n meddyliau heddiw gyda theulu April Jones gan gynnwys y cysylltiadau teuluol sydd yn byw, neu wedi byw ar un adeg, yn ardal Papur Pawb. Yr ydym yn meddwl amdanoch yn eich gofid a'ch hiraeth

|                |           |                  |           |
|----------------|-----------|------------------|-----------|
| tud 3          | tud 4 / 5 | tud 9            | tud 12    |
| Pobol a Phethe | Ysgolion  | Castell Glandyfi | Chwaraeon |

# CYRRI AR Y PATSYN GLAS



## Geraint Cerrigaranau ar Fferm Ffactor 2012



Mae Geraint Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, ymhlith y deg ffermwr dewr sydd yn cystadlu am deitl Fferm Ffactor 2012 ar S4C ar hyn o bryd.

Bob wythnos bydd y deg cystadleuydd yn wynebu cyfres o heriau amaethyddol i brofi eu sgiliau i'r eithaf. Un wrth un, bydd cystadleuwyr yn cael eu hanfon gartref gan adael dim ond un i hawlio teitl Ffarmwr Gorau Cymru 2012.

Cyn dechrau cystadlu, meddai Geraint, 24 oed, sy'n gweithio ar fferm laeth, biff a defaid organig ei deulu yng Ngherrigaranau: 'Rwy'n credu'n gryf y dylech chi fwynhau beth rydych chi'n ei wneud. Rwy'n mwynhau fy ngwaith o ddydd i ddydd ac yn cael digon o hwyl gyda'm ffrindiau yn y Clwb Ffermwyr Ifanc a galla i ddim aros i fod ar Fferm Ffactor.'

Byddwn yn dilyn y cystadlu gyda diddordeb, gan obeithio y gwelwn Isuzu D-Max newydd yn gwibio trwy'r fro yn fuan.

Un peth a ddaeth yn amlwg wedi'r dilyw ym mis Mehefin yw'r ymdeimlad o gymuned. I lawer ohonom a orfodwyd o'n cartrefi yn ystod yr oriau mân ar y 10fed o Fehefin, daeth y Llew Gwyn, dan reolaeth Nicky a Shaun Byrne, yn ganolfan gymunedol a phrofwyd cefnogaeth cymuned gyfan wrth i bobl a busnesau o bell ac agos ddarparu ar ein cyfer.

Mi fydd mwynhau brechdan a phaned tu allan i'r Gwyn yng nghwmni'r holl bobl a ddaeth i gynorthwyo gyda'r glanhau ar y prynhawn Sul cyntaf wedi'r llifogydd yn sefyll yn y cof am flynyddoedd mawr.



Ers hynny bu criw ohonom yn cyfarfod yn y naill Lew a'r llall bob nos Iau i rannu profiadau am gwmnïoedd yswiriant, loss-adjusters, Asiantaeth yr Amgylchedd, cwmnïoedd adeiladu o bell a cheginau newydd, a'r cyfan o dan arweiniad diflino dau a ddioddefodd fwy na neb, Jenny a Mick Fothergill. Dyma le yr heuwyd yr hedyn o syniad am ŵyl gyrru.

Wrth reswm, roedd dewis prynhawn Sadwrn ym mis Medi ar gyfer digwyddiad awyr agored ar y patshyn glas wedi un o'r hafau gwlypaf mewn cof, yn mynd i fod yn

weithred o ffydd. Diolch i'r drefn tywynnu yn gynnes arnom wnaeth yr haul pan ddaeth rhai o gogyddion cyrri mwyaf brwdfrydig Tal-y-bont at ei gilydd i ddangos eu doniau a rhannu eu danteithion.

Rhywbeth i godi calon oedd y bwriad yn y lle cyntaf, gan taw ychydig iawn o'r criw oedd wedi dychwelyd i'w tai. Ond buan y daeth yn amlwg fod cryn ddiddordeb ac fel caseg eira dda (boeth!) fe dyfodd ac fe dyfodd. A phan ddaeth y diwrnod

*Ymlaen i dudalen 7*



## Papur Pawb

|                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
|-----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com<br>Cysyllter â golygyddion y mis                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | (01970) 832560 |
| Tynnu lluniau:        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Tal-y-bont:           | <b>GOHEBYDDION LLEOL</b><br>Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592<br>Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438<br>Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont 832483<br>Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498<br>Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566<br>Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230<br>Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl 832429<br>Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260<br>Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312 |                |
| Maes-y-deri:          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Parsel Henllys:       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Bont-goch:            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Tre Taliesin:         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Tre'r-ddôl:           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Eglwysfach/Ffwrnais:  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Cadeirydd:            | <b>CYMEITHAS PAPUR PAWB</b><br>Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832433<br>Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093<br>Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832433<br>Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093<br>Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448<br>Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312                                                                                                                                                      |                |
| Is-gadeirydd:         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Ysgrifennydd:         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Trysorydd:            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Tanysgiriadau:        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Hysbysebion:          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Plygu'r Papur:        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
| Dosbarthwyr:          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                |

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## CLWB LLYFRAU TAL-Y-BONT

Yr ydym wedi cael blwyddyn ardderchog yn darllen rhai llyfrau heriol iawn. Cychwynodd y flwyddyn gyda'r holl aelodau (un ar ddeg) yn darllen Behind the Scenes at the Museum gan Kate Atkinson a chawsom ein cyfarfod diweddaraf ar yr ugeinfed o Fedi i drafod Cloud Atlas gan David Mitchell. Mae'r ffilin o'r llyfr yn dod allan yn mis Hydref ac yr ydym yn bwriadu mynd i'w weld fel grŵp pan ddaw i Ganolfan y Celfyddydau.

Am weddill 2012 yr ydym yn darllen Major Pettigrew's Last Stand gan Helen Simonson, The Meeting Point gan Lucy Caldwell a Like Water For

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Megan Mai a Phil Davies gyda Siôn Pennant yn dylunio.

Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Delyth a Bledwyn Huws: huws.henllan@btinternet.com.

Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener, 2 Tachwedd. Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 9 Tachwedd.

Chocolate gan Laura Esquirel. Mae croeso bob amser i aelodau newydd - dynion a merched. Ar y funud yr ydym yn darllen llyfrau Saesneg yn unig (yn cynnwys y rhai hynny gyda thestun Cymreig) achos bod bron pob aelod yn wreiddiol o Loegr.

Mae'r llyfrau yn cael eu



Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, gyda Branwen Huws a Meinir Edwards, Y Lolfa, yn ystod lansiad llyfr newydd Falyri, Codi bawd a dweud helo: caneuon i blant bach, ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r gyfrol yn cynnwys 68 o ganeuon ar gyfer plant 3-7 oed.

## Dyddiadur

### Hydref

Y Canpunt gan Kate Roberts

14 Bethel 10 Undebol  
Diolchgarwch y Plant  
Nasareth 5 Uno ym Methel  
Rehoboth Oedfa'r ofalaeth  
Eglwys Dewi Sant 11  
Cymun Bendigaidd

21 Bethel 10 Gwasanaeth  
Teuluol  
Nasareth 10 Parch Irfon  
Evans  
Eglwys Dewi Sant 11  
Boreol Weddi

15 Merched y Wawr  
Neuadd 7.30 Profiadau  
Newyddiadurwr (Cemlyn  
Davies)  
Neuadd Rhydpennau 7.30  
Noson yng Nghwmni Dr  
Eurfyl ap Gwilym  
(Cangen Rhydpennau o  
Blaid Cymru)

28 Bethel 2 Gweinidog (C)  
Nasareth  
Rehoboth 5 Bugail  
Eglwys Dewi Sant 11  
Gwasanaeth Teuluol

### Tachwedd

2 Morlan, Aberystwyth  
Noson aml-ddiwyllynnol

18 Sefydliad y Merched Neuadd  
Cwrdd Blynnyddol a Chwis

19 Clwb Nos Wener Llew Du  
8.00 Noson yng nghwmni  
Steve Eaves. Tocynnau £8

4 Bethel 10 Gweinidog  
Nasareth 11.15 Bugail (C)  
Rehoboth 5 Bugail  
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun  
Bendigaidd

20 Morlan, Aberystwyth 7.30  
Cwmni Morlan yn cyflwyno  
Y Canpunt gan Kate Roberts

7 Clwb Pêl-droed Aberystwyth  
7.30  
Cwmni Bara Caws gyda Sioe  
Glybiau. Tocynnau £8

21 Morlan, Aberystwyth 7.00  
Cwmni Morlan yn cyflwyno

11 Neuadd Goffa  
Gwasanaeth Coffa 10.45

dewis gan bob aelod a'r unig reol yw bod rhaid darllen y llyfr hyd yn oed os nad hwn yw eich dewis arferol. Yn y ffordd yma y mae llawer ohonom wedi cael ein harwain at awduron a llyfrau na fyddem ni fyth yn eu hystyried. Ein bwriad yw mwynhau rhywbeth newydd.

Yr ydym yn cyfarfod bob chwech wythnos mwy neu lai, yn y prynhawn yn y Neuadd Isaf. Am fwy o wybodaeth holwch - Sheila ar 01970 832574 neu Juliet ar 01970 832205.

## Cywiriadau ac Ychwanegiadau Sioe Tal-y-bont

### Dosbarth 194

Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol uwchradd.

2: Ffion Jones, Berthlwyd  
(bocs twls)

### Crefftau

2: Michael Deaville, Dôl-  
Pistyll



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru

## YMGYRCH DIOGELU CYMRU WLEDIG yn cyflwyno noson gyda

IOLO WILLIAMS  
Nos Wener 7 Rhagfyr  
7.30pm

Y TABERNACL,  
MACHYNLLETH

oedolion £10 plant o dan 16  
oed £2

Tocynnau ar gael ddiwedd mis Hydref

## Plaid Cymru

Noson yng nghwmni Dr Eurfyl  
ap Gwilym

Neuadd Rhydpennau  
Nos Lun, 15 Hydref  
7.30 o'r gloch

Croeso cynnes i aelodau a  
ffrindiau



## Noson Deyrnged

Yn Amgueddfa Ceredigion, Nos Sadwrn 6 Hydref cynhaliwyd achlysur i ddathlu bywyd Olwen Davies a fu farw'r llynedd. Yn cymryd rhan yn y noson roedd Bryn Dennis, Maes-y-Felin, Tal-y-bont gyda band pres iau Ysgol Penglais, dan arweiniad Mr A Phillips. Yno hefyd yn canu gydag 'AberOpera' a'r 'Showtime Singers' oedd Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont.

## Rhaglen Dewi Llwyd

Darlledwyd sgwrs ddifys ar Radio Cymru fore Sul 30 Medi rhwng Dewi Llwyd a Ruth Jên ar achlysur pen blwydd Ruth. Cawsom glywed am ei gwaith a'i diddordebau, yn ogystal â hanes yr hen fenywod Cymreig sydd bellach mor boblogaidd.

## Yr Eglwys

Yn y diolchiadau y mis diwethaf dyldid fod wedi cyfeirio at Miss Myrtle Williams, a fu'n gyd-warden ffyddlon gyda Mr Gwilym Roberts am flynyddoedd, yn hytrach na Mrs Myrtle Parker.

## Brysiwch Wella

Dymunwn adferiad iechyd buan i Su James, Is-y-coed, Tal-y-bont, yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar. Mae Su adref erbyn hyn ac yn cryfhau'n ddyddiol. Mae'n ddrwg gennym glywed fod tad Su yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Ar nodyn hapusach, roedd hi'n braf gweld Cian Llewelyn, mab Su a Dai Dowsett, yn cyflwyno eitem ar Hacio, S4C ar 27 Medi am y problemau y mae graddedigion yn eu wynebu wrth chwilio am waith. Ewch i wefan Clic i gael golwg ar yr eitem.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i dad Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

## Plaid Cymru Tal-y-bont

Bydd tymor y gangen yn agor trwy ymuno â Changen Rhydpennau am noson yng nghwmni Dr Eurfyl ap Gwilym yn Neuadd Rhydpennau, nos Lun, 15 Hydref am 7.30 pm.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Barbara Adams, Bwthyn

# Pobl a Phethe



*Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer o Dŷ Gwyn, Tal-y-bont ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Tregaron ym ddiweddar; Glain Llwyd yn cipio'r wobwr gyntaf am ganu a llefaru rhwng 6 a 9 oed a Miriam Llwyd yn fuddugol am ganu a llefaru o dan 6 oed.*

Rhosyn, Glandyfi sydd wedi colli ei brawd-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

## Ysgol Sul Bethel

Fore Sul, 30 Medi, cynhaliwyd oedfa o addoliad i'r teulu i gomisiynu Eleri Pierce Barder yn Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuencid yng Ngogledd Ceredigion. Roedd nifer o blant ac ieuencid Ysgolion Sul yr ardal yn cymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig yma. Diolch i Betsan, Siôn a Catrin o Ysgol Sul Bethel am eu cyfraniad i'r gwasanaeth.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont ar golli ei fam yn Awstralia.

## Llongyfarchiadau

I George a Sheila Barron ar enedigaeth wŷr bach. Ganed mab i Kate a'i gŵr Arwel.

## Swydd Newydd

Dymunwn yn dda i Lowri Hughes, 6 Maes y Felin sydd wedi dechrau yn ei swydd

newydd yn Salon Leri.

## Deunaw Oed

Llongyfarchiadau i Hefin Hopkins, Tal-y-bont wnaeth ddathlu ei ben blwydd yn 18 oed ym mis Medi.

## Pob Hwyl

Pob hwyl i Elen Jones, Llys y Bryn, Tre'r Ddôl sydd yng Nghaerdydd yn astudio'r cyfryngau.

## Bedydd

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ym Methel, Tal-y-bont p'nawn Sul 30 Medi, pan gynhaliwyd bedydd Lleucu Haf Lilian Griffiths, merch fach Hywel ac Alaw Griffiths, Garth, Tal-y-bont. Yn ystod y gwasanaeth hefyd fe groesawyd Hywel ac Alaw yn gyflawn aelodau.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dylan a Lynwen Herbert Morgan, 1 Pentrebach ar enedigaeth merch fach ar 2 Hydref.

Hefyd i David Elwyn Griffiths, Nantddu ar ddod yn ddad-cu unwaith eto wrth i fab

bach Angharad ac Andy ddod i'r byd, yng Nghaerdydd. Mae'n frawd i Fflur ac yn or-nai i Marianne Griffiths, Glanheulog.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Barry Williams, gynt o Dal-y-bont, a'i wraig Ann sydd bellach y byw yn Bow St. Mae Ann wedi colli ei thad, oedd yn byw yn Llandre.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont, ar ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth i ddisgyblion ysgolion uwchradd, i ddyluno pamffledi i hyrwyddo llefydd arbennig i ymweld â nhw yn ardal Aberystwyth a'r cyffiniau. Trefnwyd y gystadleuaeth ar y cyd gan Glwb Rotari Aberystwyth a Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion.

## Llwyddiant Rhifyn Medi

Gobeithio i chi lwyddo i brynu copi o Bapur Pawb mis Medi mewn da bryd. Bu'n rhaid cludo copïau ychwanegol i sawl siop wrth i'r rhifyn, a'r atodiad lliw, dderbyn ymateb ffafriol iawn gan y darllenwyr.

## Dathlu

Llongyfarchiadau i Donna ac Alwyn James, Maes Cletwr, Tre'r Ddôl sydd newydd ddathlu eu Priodas Arian. Gobeithio i chi fwynhau y dathliadau. Hefyd i Terresa Jones, Ynys Tudor, Tre'r Ddôl a oedd yn dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Connor Burns, Maes Cletwr, Tre'r ddôl a gafodd ddamwain ar ei feic a cael anaf reit ddrwg i'w goes ac hefyd i'w frawd Max sydd â clefyd ar ei glun.

## Cymanfa Ganu'r Cynhaeaf

Cafwyd noson gofiadwy a chynulleidfia deilwng iawn yn Eglwys St. Pedr, Elerch nos Wener 5ed Hydref ar gyfer Cymanfa Ganu a Gwasanaeth y Cynhaeaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchg Andy Herrick, Ficer Eglwys y Santes Ann, Penparcau a'r canu gan Dai Jones, Llanilar. Yr unawdydd oedd Rebecca Jewell, Llangwryfon, gyda Elisabeth James, Tal-y-bont yn organydd.

# YSGOL LLANGYNFELYN

## Diwrnod 'Allan ar y Fferm'

Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Lanerchaeron ar ddechrau mis Medi i Ddiwrnod 'Allan ar y Fferm' wedi'i drefnu gan Glybiau Ffermwyr Ifanc, Ceredigion. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn cynnwys coginio, diogelwch ar y fferm, dysgu am gneifio, godro a thyfu cnydau. Gwelont arddangosfeydd o hen beiriannau fferm a chafodd pawb fag cotwm yn llawn o ddeunyddiau i fynd adref gyda hwy.

## Ymweliad â Fferm Tanllan

Fel rhan o'u gwaith ar y thema Bwyd a Ffermio – aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad i Fferm Tanllan. Cafwyd croeso cynnes iawn gan Anti Shân a David. Bu'r plant yn bwydo'r anifeiliaid gan gynnwys buwch a'i llo bach. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn eistedd ar y beiciau pedair olwyn a chwarae gyda Don y ci bach. Uchafbwynt y bore oedd mynd am dro i weld y cychod



gwenyn a blasu'r mêl. Diolchwn yn fawr iawn i Anti Shân a David am roi o'u hamser ac am y cacennau hyfryd.

## Prynhawn Coffi Macmillan

Aeth holl blant yr ysgol drws nesaf i Lanfach ar brynhawn dydd Gwener Medi 28ain i gefnogi Prynhawn Coffi Macmillan. Casglodd y plant a'r staff £25 tuag at yr elusen a mwynhawyd cacen a diod yng nghwmni ein cymdogion.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Mae gwahoddiad i bawb ymuno gyda ni a disgyblion Ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa yn Eglwys y Borth ar brynhawn dydd Mawrth Hydref 16eg am 1.30yp. Bydd bws yn gadael yr ysgol am 12.30 ac yn dod nôl erbyn tua 3yp. Mae croeso i unrhyw un sydd angen cludiant i'r Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Borth ddod ar y bws am gyfraniad bychan o £1 y pen.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon amryw o ffyrdd i godi arian ar gyfer yr ysgol. Byddai'r ysgol yn gwerthfawrogi unrhyw beth o'r rhestr ganlynol:

- talebau 'Let's Grow' archfarchnad Morrisons
- dillad, esgidiau, blancedi, teganau meddal, bagiau, beltiau a llenni ar gyfer Bags2School. (Casgliad nesaf 6ed Tachwedd)
- hen DVDs a CDs
- cetris inc gwag
- hen ffonau symudol
- cofiwch ailgylchu eich gwydr yn y bin gwydr ger yr ysgol (caiff yr ysgol arian am hyn)
- defnyddiwch wefan:  
[www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolllangynfelyn](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolllangynfelyn)  
i siopa ar-lein



## Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd

Aeth chwech o fechgyn Cyfnod Allweddol 2 – Seren, Zeb, Ben, Steffan, Seamus ac Elijah draw i Ganolfan Hamdden Plasrug i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill o dan 50 o blant yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Chwaraeodd y bechgyn yn arbennig o dda er nad aeth y tîm drwyddo i'r rownd nesaf.

Diolch yn fawr!



# YSGOL TAL-Y-BONT

Yn dilyn ymweliad  
Blwyddyn 5 a 6 (dosbarth  
Miss Morgan) i Fferm Cerrig  
Caranau Uchaf ar ddydd  
Gwener 28 Medi, dyma llythyr  
a llun gan Gwydion Teifi  
James (disgybl blwyddyn 6).

Ysgol Tal-y-Bont,  
Tal-y-Bont,  
Ceredigion,  
SY24 5HE  
04/10/12

Fferm Cerrig Caranau Uchaf  
Tal-y-Bont,  
SY24 5EJ

Annwyl Mr Jenkins,

Fy enw i yw Gwydion Teifi James a rydw i'n anfon y llythyr yma i ddiolch i chi am adael i ni ym mlwyddyn 5 a 6 ymweld â'ch fferm, Cerrig Caranau Uchaf. Roeddwn i yn un o'r disgyblion yno ar ddydd Gwener yr wythfed ar hugain o Fedi.

Roedden ni wedi mwynhau gwyllo chi'n godro y gwartheg yn y parlwr a rydw i wedi dysgu llawer mwy am sut mae godro heddiw, gan ddefnyddio offer modern. Cyn i'r dosbarth gyrraedd y fferm, cafodd llo ei eni. Roeddwn i'n ffodus iawn i gael helpu chi bwydo'r llo. Dysgais bod hi'n bwysig iawn i'r llo gael llaeth y fam am y tro cyntaf.

Roedd yna lawer o loi yno yn barod. Dysgais beth roedd y gwartheg yn cael i fwyta, sef seilej, barlis a gwair. Gwelais llawer o beirianau gwahanol, megis y peiriant torri barlis, chwalwr dom, chwalwr gwair a thractor.

Cawsom llawer o hwyl fel dosbarth, a hoffwn ddiolch i chi fel teulu unwaith eto am adael i ni ddod i'ch fferm.

Yn gywir  
Gwydion Teifi James



## Ymwelydd o Malawi

Efallai eich bod yn ymwybodol fod Ysgol Tal-y-bont wedi croesawu Agness Jere o Malawi yma ar ymweliad yn ystod mis Medi. Roedd hi yma fel rhan o gynllun Partneriaethau Ysgolion Bydeang y Cyngor Prydeinig. Bu Miss Manon Rhys yn ymweld ag Ysgol Gynradd Nkope Hill ym mis Mehefin a'r tymor hwn roedd hi'n frain i Ysgol Tal-y-bont gael croesawu Agness atom ni. Roedd amcanion clir, cytunedig i'r rhaglen gyfnewid sef bod plant y ddwy ysgol yn dysgu mwy am gynladwydd ac effaith dadgoedwigo mewn gwledydd ar draws y byd.

Dechreuwyd ymwneud â'r prosiect ym mis Medi diwethaf ac fel rhan o'r gweithgareddau bu'r plant yma'n ymweld â swyddfeydd y Cynulliad yn Aberystwyth, y Ganolfan Dechnoleg Amgen ac yn perfformio yn opera Noye's Fludd.

Yn ystod ei chyfnod yma, bu Agness yn ymweld â dosbarthiadau, yn arsylwi ar wersi ac edrych ar waith y plant yn y tri dosbarth. Cawsom ni i gyd gyfle i siarad gyda hi am fywyd ym Malawi ac roedd hi'n agoriad llygaid i staff a phlant yr ysgol i glywed am ei phrofiadau dysgu yn Nkope Hill. Roedd pob plentyn yno'n gorfod pasio arholiad cyn symud ymlaen blwyddyn ac er mai ysgol gynradd yw Nkope Hill roedd Agness yn dysgu plant 14 ac 15 oed yn ei dosbarth – dros 70 o blant. Roedd rhai dosbarthiadau'r plant lleiaf yn cynnwys dros 200 o blant ac roedd tua 1,100 o blant yn yr ysgol yn gyfan.

Roedd Miss Rhys wedi dweud wrthym eisoes nad oedd llawer o adnoddau yn Nkope Hill ac fe wnaeth Agness gadarnhau fod pethau elfennol fel papur, pensiliau, naddwyr ac yn y blaen yn brin iawn yn yr ysgol ac nad oedd dim trydan yno chwaith. Roedd nifer o'r plant yn teithio hyd at 5km i gyrraedd yr ysgol gan gerdded trwy afonydd i gyrraedd yno. Roedd llawer o ferched yn gadael yr ysgol yn ifanc i briodi a bod disgwyl i lawer o'r bechgyn adael ysgol yn ifanc hefyd i fynd i weithio er mwyn cynnal y teuluoedd. Dywedodd hefyd fod presenoldeb yn yr ysgol yn isel ar hyn o bryd gan fod llywodraeth Malawi wedi atal y cymhorthdal ar gyfer cinio ysgol ac nad oedd y teuluoedd yn gallu fforddio prynu'r bwyd. Esboniodd hefyd fod Ysgol Nkope Hill yn ganolfan ar gyfer plant dall yr ardal.

Cyn ein gadael, trosglwyddodd Agness anrhegion hyfryd i'r ysgol, sef dau lun yn dangos bywyd yn y pentrefi o gwmpas Nkope Hill. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried parhau â'r cysylltiadau mewn rhyw ffordd ar gyfer y dyfodol.



*Mae Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn cydweithio gydag Ysgol Nkope yn Malawi. Ym mis Medi cawsom ymweliad gan Agness, un o athrawon yr ysgol. Dyma lun o Agness yng nghwmni'r plant.*

## Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont

Ar fore Sadwrn, 22 Medi, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Neuadd Goffa Tal-y-bont. Mi fuon yn lwcus iawn gyda'r tywydd a dwi'n meddwl bod hynny wedi bod yn help mawr tuag at lwyddiant yr achlysur. Braf oedd gweld cymaint o aelodau o Eglwys Llandre a Llangorwen ynghyd â thrigolion pentref Tal-y-bont wedi dod ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r achlysur.

Hoffwn ddiolch i bawb o aelodau'r Eglwys a fuodd yn helpu yn ystod y bore ac hefyd am yr holl bethau a roddwyd ganddynt tuag at y gwahanol stondinau. Hoffwn hefyd ddiolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd oddi wrth aelodau'r Eglwys a fethodd fod gyda ni yn y bore coffi. Criw bychan iawn ydyn



ni yn yr Eglwys, ond mae'n syndod fel yr ydym yn tynnu at ein gilydd ar achlysuron fel yma. Heb yr help yma ni fyddai modd cynnal y fath yma o achlysur.

Casglwyd £520 yn ystod y bore ac unwaith eto hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni.

Eurllys Jones

## LLIFOGYDD 1935

Roedd y difrod a achoswyd gan y llifogydd yn Nhal-y-bont a'r pentrefi cyfagos ym mis Mehefin eleni yn dormalonnu i'r trigolion, ond yn anffodus, nid dyma'r tro cyntaf i'r afon Leri orlifo ei glannau a chreu difrod. Deuthum o hyd i adroddiad yn llyfr lloffion fy Nhad-cu (James Pearce Evans, Y Siop, Bontgoch) sydd yn adrodd hanes y llifogydd difrifol a ddigwyddodd yn ardal Aberystwyth ym mis Mehefin 1935 o dan y pennawd 'Thunderstorm's trail of havoc'.

Ar y diwrnod arbennig hwnnw, cyrhaeddodd y tymheredd 83° Farenheit yn ystod y prynhawn ac erbyn 6 o'r gloch y nos cafwyd storm enfawr o fellt a tharanau gyda glaw trwm iawn. Barnwyd fod cwmwl wedi torri yn y mynyddoedd uwchlaw Craig-y-Pistyll ac roedd llif yr afon Leri yn eithriadol o uchel wrth lifo trwy Bontgoch. Cafodd gwaelod pentref Tal-y-bont ei daro wrth i'r afon orlifo ac achosi llifogydd, ond nid oes disgrifiad o'r difrod a achoswyd.

Y tro hwn hefyd nid oedd modd tramwyo drwy bentref Dol-y-bont gan ei fod o dan ddŵr a'r trigolion yn gorfod symud i'w llofftydd i'w osgoi. Disgrifir y modd y cafwyd chwe throedfedd o ddŵr ar fuarth fferm Cwmere gydag anifeiliaid ac offer amaethyddol yn arnofio yn y llifeiriant. Achoswyd difrod yn y ffermdy hefyd gydag wyau a menyn yn arnofio ymysg y dodrefn yn y llaethdy. Roedd y bont gerllaw wedi ei gorchuddio gan ddŵr, ond yn ffodus ni chafodd ddifrod.

Dywedir i bentref Llandre osgoi unrhyw ddifrod, ond roedd llifogydd difrifol wrth orsaf y trên yn Bow Street ac ni fu'r trên yn rhedeg am gryn amser nes iddynt fod yn siŵr nad oedd y trac wedi ei ddirodi. Cafodd sawl tŷ yn Nhrefeurig eu heffeithio gan lifogydd, ac yn ystod y storm trawyd tŷ yn y Borth gan fellten ac aeth honno i lawr y simne gan achosi llosgiadau i wraig y tŷ.

Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o dref Aberystwyth o dan ddŵr gan i gwmwl arall dorri uwchben y dref, a'r dŵr yn llifo i lawr rhiw Penglais a Chraig Glais. Yn ôl trigolion hynaf y dref, dyna'r llifogydd gwaethaf i fwrw Aberystwyth ers 1886. Ond nid gogledd y sir yn unig a ddioddefodd oherwydd y storm, gan fod adroddiadau i'r afon Tweli orlifo hefyd gan achosi difrod mawr ym Mhontweli a Llandysul. Golchwyd pont y rheilffordd i ffwrdd ger Pencader, yn ogystal â'r plattfform yng ngorsafoedd Brynteifi a Phentrecwrt. Lladdwyd ŵyn a gwartheg gan y mellt yn Rhydlewsi, a nifer o wartheg yng nghwm Cerdin. Felly, gwelir fod y rhan fwyaf o Geredigion a rhannau o sir Gaerfyrddin wedi eu heffeithio gan y storm arbennig honno nôl yn 1935.

Carys Briddon



## TAITH GERDDED CLWB NOS WENER

Criw Clwb Nos Wener Tal-y-bont yn mentro allan yng ngolau dydd. Dyma nhw yng Ngheinewydd ar ddechrau eu taith gerdded ar hyd llwybr yr arfordir i Aberaeron. Cynhelir cyfarfod nesaf y Clwb, nos Wener, 19 Hydref yng nghwmni Steve Eaves yn y Llew Du.



## Sefydliad y Merched, Eglwysfach

I ddathlu pen blwydd y sefydliad yn 90 oed fe drefnodd Wendy Fuller fod BBC Radio 4 yn recordio rhaglen Gardeners' Question Time yn Y Tabernacl, Machynlleth. Ar y panel roedd Bob Flowerdew, Matt Biggs a Bunny Guinness a'r Cadeirydd oedd Peter Gibbs. Cafwyd noson fendigedig. Mi fydd y rhaglen ar y radio ar 12fed o Hydref am 3 o'r gloch ac eto ar Ddydd Sul 14eg am 2 o'r gloch. Mi fyddwch chi'n siŵr o glywed rhywun chi'n nabod!

**Salon Leri**  
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard  
Pedicure a Manicure  
10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674



Eich Arbennigwr Celf a Fframio Lleol  
Peter Fleming  
High Street, Borth, SY24 5HZ  
Tel: 01970 871 042



## Teyrnged i Alun Ceredig Evans

Ganwyd Alun Ceredig Evans ar yr 16eg o Fedi, 1919. Fe'i magwyd ar aelwyd Tyr-Banc, Bont-goch, Tal-y-bont a derbyniodd ei addysg yn Ysgol yr Eglwys yn y pentref. Ar ôl gorffen ei addysg, aeth i fwrw'i brentisiaeth fel gwas fferm a bu am gyfnod yn gweithio yn Llety Llwyd, Tal-y-bont a Phwllglas, Llandre.

Aeth Alun ymlaen i weithio i Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion, a'i brif ddyletswydd oedd gyrru stêm-roler. Roedd gyrru'r peiriant o ddiddordeb mawr iddo, ac roedd yn destun sgwrs ganddo'n aml iawn, a'i wybodaeth eang ohonynt yn amlwg.

Priododd Mary Jane yn Ionawr 1952, ac ymgartrefodd y ddau mewn tŷ cyngor newydd sbon ar ystâd newydd Maes y Deri, Tal-y-bont ac wrth fyw yno bu Alun yn magu bwjis. Roedd ganddo hefyd diddordeb mawr mewn garddio, a byddai'n cymryd balchder yn ei ardd; arferai dreulio amser yn tyfu ac yn gofalu am amryw o lysiau.

Roedd hefyd yn hoff iawn o wyllo pêl-droed a byddai'n gwyllo a chefnogi Aberystwyth ar brynhawn Sadwrn pan oeddynt yn chwarae gartref. Arferai hefyd yrru beic modur â sidecar, a byddai pawb yn gwybod ei fod ar ei ffordd adref o glywed sŵn y modur.

Yn ddiweddarach fe wnaeth ef a Mary Jane brynu tŷ eu hunain yng nghanol y pentref, sef Brynawelon. O symud yno, fe barhaodd ddiddordeb Alun mewn garddio, a threuliai amser yn ei dŷ gwydr yn edrych ar ôl y tomatos.

Ni fu Alun fyth yr un peth wedi marwolaeth ei wraig fis Chwefror, 2001, wedi 49 mlynedd o briodas ddedwydd. Dros amser aeth ei gof o ddrwg i waeth, a bu'n rhaid iddo fynd i Gartref Gofal. Wedi cyfnod byr yng Nghartref Bodlondeb, Penparcau, fe aeth i Gartref Gofal Bethshan yn y Drenewydd fis Ionawr, 2007. Yn ystod ei bum mlynedd a hanner yn y cartref derbyniodd ofal arbennig. Bu farw ar y 23ain o Awst, 2012 yn 92 oed.

### Diolch

Dymuna Ceri a Dylan Jones, Brynawelon, ddiolch yn gynnes am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu hewythr, Alun Evans, yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Gartref Gofal Bethshan.

### Y Parch Aubrey Newell

Bu farw Aubrey ar 22 Medi yn 92 oed. Cafodd ei fagu yn Tŷ Gorsaf, Glandyfi a chafodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Machynlleth a Phrifysgol Llambod. Mi briododd Win yn 1951 a bu'n ficer yng Nghymru ac yn Buckinghamshire. Roedd yn falch iawn i fod yn Gymro. Treuliodd Aubrey ei ymdeoliad yn Tŷ Gorsaf ble roedd e'n hoff iawn o bysgota ar Afon Dyfi ac arlunio. Bu'n gofalu am Win ac yn ei nyrsio am flynyddoedd, ac roedd y ddau ohonyn nhw yn Ysbyty Machynlleth erbyn hyn, ac yno bu farw Aubrey. Cydymdeimlwn â Win sydd yn dal yn Ysbyty Machynlleth, a'u tri phlentyn, sef Ruth, Paul a Glenys.

### Michael Sansbury

Trist yw cofnodi marwolaeth Dr. Michael Sansbury, gynt o Is-y-coed, Tal-y-bont, un o blant y pentref. Mynychodd Ysgol Gynradd Tal-y-bont, ac wedyn Ysgol Ramadeg Ardwyn, lle'r oedd ei dad yn athro Bioleg, a'i fam yn weithgar iawn yn Eglwys Dewi Sant a Sefydliad y Merched. Bu Michael yn feddyg yng Ngwynedd, yr Almaen ac yn feddyg teulu yng Nghanolfan Iechyd Prifysgol Abertawe, nes iddo ymddeol yn 2009, a dychwelyd i Gaeredin lle bu'n fyfyrwr. Cydymdeimlwn â'i frawd, Brian a'r teulu, Bow Street.

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

Mathew Davies  
Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr  
hefyd gwaith teilio  
Nwy • Olew • Tanwydd Sotet • Solar

## PRIODAS AUR



*Dathlodd Janet a John Morgan, Moelgoch, Tal-y-bont eu priodas aur yn ystod mis Medi. Mae'r llun yn dangos Janet, John a'u dwy ferch yn dathlu'r achlysur yng Nghwesty Manor Country House, Studland, Dorset.*

### Cyrrï ar y Patsyn Glas

(o dudalen 1)

roedd yna wledd yn ein haros ar y patshyn glas.

Codwyd gazebos, gosodwyd byrddau a chadeiriau ac adeiladwyd cegin dros dro gydag offer gwersylla. Am 4 y prynhawn dechreuodd pobl gyrraedd, rhai yn cario'u cyrrï a rhai yno i fwynhau. Wedi'r cyfan roedd y gwahoddiad yn un agored, doedd dod â bwyd ddim yn orfodol.

Roedd yr amrywiaeth yn agoriad llygaid. Cafwyd mwy nag 20 crochan a chyrrï cig oen, cig iâr, cig eidion, porc a llysieuol, yn wir roedd rhywbeth at ddant pawb, tra'u bod yn hoffi cyrrï wrth gwrs! Ac wrth i'r prynhawn fynd yn ei flaen cafwyd ambell gais am gyrrï poethach. Ymddangosodd potel o Scotch Bonnet o rywle, cyfunwyd cynnwys ambell sosban a gwelwyd ambell ddiferyn o chwys ar dalcen un neu ddau!

Bu'r ymateb i'r fenter yn gadarnhaol iawn a diolch yn fawr i'r Llew Du am goginio'r reis. Er na fu cyfiri ar faint oedd yno, amcangyfrifir fod mwy na chant o bobl wedi ymuno yn yr hwyl a braf iawn oedd gweld y patshyn glas yn ferw o fywyd cymuned bentrefol ar ei gorau.

Drwy dudalennau Papur Pawb, hoffwn ddiolch i bawb am fod mor barod i gyfrannu

at lwyddiant y digwyddiad byr fyfyr hwn. Yn arbennig hoffwn ddiolch Barry Morgan am gynorthwyo gyda'r trefniadau a goruchwylio'r coginio ac am gyfrannu cyrrï cig oen penigamp.

Y cwestiwn nawr i'r rhai ohonom a fu'n trefnu yw, ys gwn i beth fyddai'r ymateb i ddigwyddiad blynyddol o'r fath?

Arthur Dafis, Mur Mawr.

**Gwasanaeth Scania**  
**ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 – 07721 786292

**Morlan**  
Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- *Y Canpunt* – cyflwyniad Cwmni Morlan o ddrama Kate Roberts (7.30, 20 Hydref & 7.00, 21 Hydref)
- C21 yn Morlan (7.30, 24 Hydref)
- Noson Aml-ddiwyllynnol (2 Tachwedd)
- Gŵyl Lyfrau Morlan (9-10 Tachwedd) – gydag Elystan Morgan, Jon Gower, William Owen Roberts ac eraill

Manylion llawn ar wefan Morlan:  
[www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)

**CROESO CYNNES I BAWB!**

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH  
01970-617996; [morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com)

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Nos Lun 24 Medi, croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod llawn cyntaf yn dilyn gwyliu'r haf gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Emyr Davies. Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor i deulu William [Gwilym] Felix Roberts a fu farw'n ddiweddar. Bu'n Gyngorydd Bro ffyddlon iawn am yn agos i 40 mlynedd cyn ymddeol yn Ebrill 2008, a gwasanaethodd fel Cadeirydd y Cyngor am ddau dymor. Cytunwyd i anfon llythyr o gydymdeimlad at Mrs Roberts.

### Cronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor Sir, yn diolch am gyfraniad y Cyngor i'r Gronfa. Eisoes codwyd £98,000, ac mae'r gyfran gyntaf o'r arian wedi'i rhannu rhwng y bobl leol a effeithiwyd gan y llifogydd.

### Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Cytunodd y Cadeirydd a'r Clerc i fynychu cyfarfod ymgynghorol o'r Bwrdd Iechyd i drafod y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd gyda chynrychiolwyr Cynghorau Bro a Thref yn Aberystwyth. Bydd cyfle yn dilyn y cyfarfod i'r Cyngor gwrdd i drafod eu hymateb i'r holiadur ymgynghorol a ddosbarthwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

### Ray Ceredigion

Ers chwe mis a mwy, bu cynllun Ray Ceredigion yn darparu sesiynau chwarae llwyddiannus iawn i blant lleol ar y Cae Bach bob dydd Mawrth, ac maent yn awyddus i weld y sesiynau'n parhau hyd 2013 a thu hwnt. Galwyd cyfarfod yn y Neuadd Goffa i drafod dyfodol y cynllun, a chytunodd y Cynghorydd Eric Roberts i gynrychioli'r Cyngor.

### Cynllunio

Adroddwyd fod y cais i godi estyniad dau-lawr yn Rhosyn Gwyn, Tal-y-bont, wedi'i ganiatáu. Cytunwyd i anfon sylwadau at yr Awdurdod Cynllunio ar y cais i godi preswylfan ar bwys Y Felin Penpompren, Tal-y-bont. Cytunodd y Clerc i fynychu Gwrandawriad yr Archwilydd ar Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion b'nawn Mercher 3 Hydref, pryd y byddai safleoedd datblygu posib ym mhentref Tal-y-bont dan y chwyddwyd.

### Balchder Pentrefi

Nodwyd fod y syniad o godi arwyddion yn enwi rhai o strydoedd Tal-y-bont fel rhan o gais y Cyngor am gymorth ariannol dan y project Balchder Pentrefi yn broses hir a chymhleth. Serch hynny, roedd y Cyngor yn benderfynol o frwr'r maen i'r wal yn ystod y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, cytunwyd y byddai'n fwy ymarferol i symud ymlaen ar fyrder gyda gweddill y cais am welliannau i olwg y Patshyn Glas, a'r cyfleusterau a geir yno; codi hysbysfwrdd newydd o flaen y Neuadd Goffa; codi cysgodfan bysiau newydd ym Maes-y-deri, a gwella'r ddarpariaeth o feinciau cyhoeddus ym mhen ucha'r pentref.

### Arwydd Ffordd

Nodwyd fod yr arwydd ffordd i Nant-y-moch a Bont-goch o flaen Gorwelion wedi torri. Cytunwyd i ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd yn gofyn iddynt baratoi arwydd newydd.

**loga**

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00  
Cysylltwch a  
**Sue Jones-Davies**  
**01970 624658**

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Croesawyd yr aelodau ar ddechrau tymor newydd ar brynhawn Mawrth, 11 Medi, gan Mai Leeding. Y wraig wadd oedd Shân Jones, Bontgoch, a bu'n sôn am ei gwaith fel Podiatrydd, sef meddygaeth yn ymwneud â nam ar y traed. Bu'n gweithio ym maes ceiropodi ers iddi raddio chwarter canrif yn ôl, ac erbyn hyn mae'n gweithio fel Podiatrydd yn y sector breifat ac wedi agor siop esgidiau Gwdihw yn Ffordd Portland, Aberystwyth. Talwyd y diolchiadau gan Eirlys Jones. Eiriona Metcalfe a Carys Briddon oedd yng ngofal y te.

### TAITH FLYNYDDOL CAPEL REHOBOTH



Trefnwyd taith flynyddol Capel Rehoboth gan Brian a Beti Wyn Davies eleni, ac ar ddydd Sadwrn, 8 Medi, cawsom ein tywys i fannau o ddiddordeb yng ngwaelod sir Aberteifi a sir Gaerfyrddin. Wedi inni gwrdd â Gillian Jones, ein tywysydd am y dydd, ymwelwyd yn gyntaf â chapel Bethel yn Drefach lle'r oedd hi yn aelod. Yna ymlaen drwy Gwrtnewydd ac i Eglwys hardd Llanwenog lle cawsom amser i weld yr holl greiriau unigryw a hynafol sydd o fewn yr adeilad, a chopi o garreg ogam sydd yn y fynwent. Yn y prynhawn aethom drwy goedwig Brechfa i Rydecymerau, a gweld bedd D.J. Williams yn y fynwent yno, a hefyd Abernant, ei hen gartref. Teithio wedyn i Dalyllychau i weld eglwys hynafol arall a chael hanes yr eglwys a'r Abaty gan warden yr eglwys, cyn gweld bedd 'honedig' y bardd Dafydd ap Gwilym ym mynwent yr eglwys. Cawsom groeso cynnes a chwpanaid o de a bisgedi gan y warden a'i wraig yn eu cartref gyferbyn â'r Abaty. Cyn gadael Talyllychau aethom i weld yr Hen Efail, sef gweithle Thomas Lewis, yr emynydd. Ar y ffordd yn ôl i Lanwnnen, cawsom ein croesawu i gartref Dylan Iorwerth a'i wraig, a chael y fraint o weld y gadair hardd a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni. Wedi diwrnod pleserus iawn, aethpwyd i westy'r Grannell yn Llanwnnen am bryd o fwyd ardderchog cyn troi am adref. Cyflwynodd John Leeding air o ddiolch i Brian, Beti Wyn a Gillian am drefnu'r cyfan ar ein cyfer.

### MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cychwynnwyd ar dymor newydd ar nos Lun, 17 Medi, ac yn absenoldeb ein Llywydd, croesawodd Diana Jones ein gŵr gwadd am y noson, sef Meirion Roberts. Fe'i cyflwynodd fel canwr, cogydd a chigydd, ond fel cogydd y daeth atom ar y noson. Bu'n gweithio fel cogydd ym Mhlas Bodegroes cyn symud i'r ardal yma, ac erbyn hyn mae wedi gweithio yn siop gigydd Rhydpennau ers dwy flynedd. Ar y noson fe baratodd bwdin gyda ffrwythau tymhorol, sef gellyg wedi eu potsio gyda sinsir a chwisgi, a praline gyda chnau cyll. Cafodd pawb flas'r pwddin hyfryd gyda hufen iâ ar y diwedd, a diolchwyd i Meirion gan Medi James.





# CASTELL GLANDYFI

Pan fyddwch yn oedi wrth y gwaith ffordd ger Glandyfi yn ystod y misoedd nesaf trowch eich golygon at gopa'r bryn cyfagos ac yno'n teyrnasu dros y dyffryn islaw mae Castell Glandyfi, sydd erbyn hyn yn un o westai bychain harddaf Cymru.

Ers i Maureen a Peter Holmes o Lanfair Caereinion brynu'r lle yn 2007 gweddnwidiwyd yr hen adeilad yn gyfangwbl, ac erbyn yr haf eleni roedd y gwesty 8



*Uchod: Maureen a Tabitha Ware yn dewis bwydlen y dydd, yn yr ystafell frecwast drawiadol.*



*Chwith: Maureen yn hen stydi Castell Glandyfi, sydd â golygfeydd trawiadol o'r Ddyfi*

ystafell wely ar agor i'r cyhoedd. Gan gydymffurfio â gofynion Cadw i ddiogelu holl hanfodion persaernïol pwysig yr adeilad, treuliwyd tair mlynedd gyfan yn adfer yr adeilad i'w ogoniant, gan ychwanegu cyfleusterau modern. Rhoddwyd to newydd, tynnwyd ac ailosodwyd pob ffenestr a gosodwyd to gwydr ar y cwrty tu cefn i'r tŷ sydd bellach yn ystafell frecwast golau a deniadol.

Adeiladwyd y tŷ gwreiddiol gan George Jeffreys yn 1810 yn gartref iddo ef a'i wraig Justina, merch o Aberdyfi, a'i gwreiddiau yn Jamaica, a bu'n eiddo i'r teulu o dirfeddianwyr tan 1904. Ar ei anterth roedd y Castell yn gyrchfan i rai o feirdd rhamantaidd pwysicaf Lloegr, gan gynnwys Keats a Shelley a dywedir i Thomas Love Peacock briodi yma. Bu i'r castell nifer o berchnogion yn ystod yr 20fed ganrif, gyda'r perchennog olaf, Mrs Piper yno am 40 mlynedd.


Gwesteion cyntaf Maureen a Peter, cyn iddynt agor yn swyddogol hyd yn oed, oedd tîm cynhyrchu a chyflwynwyr rhaglen Spring Watch, BBC,

wrth iddynt dreulio mis yn yr ardal yn darlledu o Ynys Hir. Cawsant fodd i fyw yn mwynhau rhai o olygfeydd mwyaf trawiadol Cymru a llonydd rhag llygaid y cyhoedd wrth iddynt gynllunio'r rhaglenni. Roeddent yno pan darodd llifogydd mis Mehefin yr ardal a chawsant loches parod ac ymgeledd gan Peter a Maureen.

Bwriad y teulu yw cynnal gwesty cartrefol lle gall cyplau neu bartïon bach dreulio noson neu ddwy mewn awyrgylch gysurus, gartrefol. Mae modd hefyd i chi fynd yno am bryd o fwyd fin nos, neu de prynhawn, ond rhaid bwcio ymlaen llaw.

Mae'r teulu'n greu'n gryf mewn meithrin eu perthynas â'r gymuned leol. Defnyddiwyd adeiladwr o Fachynlleth, Brian Roberts, i gyflawni'r gwaith ar y tŷ, defnyddir bwydydd lleol ar bob achlysur posibl, a gwahoddir mudiadau lleol i ddefnyddio'r cyfleusterau. Enghraifft dda o hyn yw'r Ffair Nadolig a gynhelir ar 17 Tachwedd pan fydd crefftwyr lleol yn arddangos eu nwyddau, a bydd Maureen yn paratoi danteithion tymhorol ar gyfer pawb a ddaw

## PRIODI YN Y LLEW DU



Llongyfarchiadau i Jo Fothergill a Nick Bryan ar eu priodas ddechrau Medi yn y Llew Du, Tal-y-bont. Mae Jo yn ferch i Mick a Jenny, Minafon, Tal-y-bont. Yn dilyn y briodas aeth y ddau ar eu mis mêl i Indonesia, ac yn anffodus cafodd Nick ddamwain wrth i fotobeic ei daro ar ddiwrnod ola'r gwyliau. Mae wedi dychwelyd adre'n ddiogel erbyn hyn, ac yn gwella o'i anafiadau. Bydd Jo a Nick yn ymgartrefu yn Lerpwl.



### Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV  
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

**www.midwalesstorage.co.uk**  
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
**Ffôn: 01654 703592**

argraffu da  
am bris da



**ylLolfa**

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

## REHOBOTH

Ar ôl imi ysgrifennu am offeiriad a faged yn Eglwys Llangynfelyn ac am y rhai a aeth i weinidogaeth y Wesleaid o Soar, Tre'r-ddôl, rwyf am sôn y tro yma am y rheiny ohonom a faged yn Rehoboth, Taliesin, a aeth i'r weinidogaeth – llai nag o'r ddau le arall ond nid llai o ran gwasanaeth. Soniodd y Doethur Thomas Richards, mab Ynys Tudur, yr hanesydd a'r llyfrgellydd, am rai o'r dynion ifanc a godwyd yn Rehoboth mewn ysgrifau yn Y Drysorfa, Chwefror-Mai 1955. Rwy'n ei gofio'n annerch ar hanes yr achos yn Rehoboth a'r gangen yn ymyl ei gartref yn Ynys Tudur, yn y capel ym 1950. Mae wedi ysgrifennu'n ddifyr am Ysgol Sul a Chwedd Gwedd Ynys Tudur yn ei gyfrol Atgofion Cardi.

Perchennog cartref Doc Tom gynt oedd un o arloeswyr Methodistiaid Talesin, Richard Griffiths, a'i fab John, siopwr yn Nhre'r-ddôl, oedd tad John Hughes Griffiths a hyfforddwyd yng Ngholeg Y Bala gan y Dr. Lewis Edwards (1861-63) ac yn Glasgow lle graddiodd yn M.A. .Fe'i hordeiniwyd ym 1871 a gweinidogaethodd yn Aberriw, Treorci, Doc Penfro, Engedi, Bae Colwyn, a Hiracl, Bangor o 1885 i 1888, cyn iddo ymfudo i Cincinnati lle daliodd brif swyddi'r Gymanfa. Ysgrifennodd cryn dipyn i'r Cyfaill o'r Hen Wlad, ac ysgrifennu'n ddiddorol am ei gefnder enwog, Humphrey Jones y Diwygiwr, i'r Fwyell, 1894. Wedi bod yno o 1889 i 1894 gadawodd y Cymry am y Presbyteriaid Saesneg a chyda hwy y bu hyd ei farw yn nhŷ ei fab yn Beaver Creek, Oregon, ym Mehefin 1910. "Yr oedd iddo'r gair o fod yn bregethwr effeithiol a chymeradwy", meddai Doc Tom.

Yr oedd y Parchedig J.D.Jones, gweinidog Gellifor, Dyffryn Clwyd, cyn ei farw ym Mai 1929, yn fab i Dafydd Jones, Gwarewm Ucha' a wnaed yn flaenor ym 1876. Gan i'r teulu symud i Gorris pan oedd J.D. yn ifanc yno mi gredaf y dechreuodd bregethu. Mab iddo oedd I.C.Jones Adran Ffiseg Coleg Aberystwyth am gyfnod hir ac un mawr ei wasanaeth yng

ngapel Seilo a'r dref. Roedd ei fab Daniel Gruffydd Jones yn Ysgol Ardwyn yr un pryd â mi a bu am gyfnod yn Gofrestrydd y Coleg ger y Lli. Bu farw yn Lloegr yn ddiweddar. Roedd Doc Tom yn tybio y gallai'r Parchedig J.T.Owen, gweinidog Eglwys Gymraeg Poplar, Llundain, fod yn un o blant Rehoboth ond nid oedd yn siŵr. Methais innau hyd yma gael manylion amdano.

Yn Adroddiad Rehoboth am 1925 gwelir enwau Mr. a Mrs. Lewis, Penpompren, eu merch Maggie, a'u mab Gomer. Er mai am gyfnod byr y buont yn amaethu yno roedd Gomer yn cydnabod y fagwraeth ysbrydol a gafodd yn ysgol Sul ac oedfaon y capel cyn iddo fynd i'r colegau i baratoi ar gyfer y weinidogaeth. Wedi'i ordeinio ym 1935 gweinidogaethodd yn y Tabernacl, Glanamau, cyn symud i Fethel, Castellnewydd Emlyn, lle bu farw yn ŵr canol oed yn y pumdegau. Dechreuodd Gerwyn ei fab bregethu pan oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth ond yng Nghofrestra Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd y gwasanaethodd am flynyddoedd.

Ysgrifennais am y Parchedig Hugh Jones, mab Tanrallt, yn rhifyn Mehefin 2010, - y pregethwr a'r llenor a briododd Bessie, chwaer yr Athro J.Gwyn Griffiths, tad Robat y Lolfa, a'r ddau yn marw ym 1947 yn 40 oed am fod nam ar y nwy yn eu cartref ym mans capel y Goppa, Ponatarddulais, lle'r oedden nhw'n gweinidogaethu. Rwy'n ei gofio'n siarad â ni yn Ysgol Llangynfelyn yn ddiddorol iawn. Ysgrifennais hefyd am fy nghyfaill, y Parchedig William George Hughes Edwards, yn rhifyn Hydref 2002 wedi iddo farw yn 72 oed yn Abertawe lle'r ymddeolodd Joyce ac yntau wedi gwasanaethu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn Surrey ar ôl cychwyn gyda'r Cymry yn Stanley Road, Lerpwl. Daeth i Daliesin pan sefydlwyd ei dad Richard (un o Benllwyn, a brawd y Parchedig Iorwerth Edwards, Llanbadarn, y gŵr a'm bedyddiodd ym Methlehem, Cwmerfyn) yn weinidog yn yr ardal.

Gan imi fyw am bymtheg mlynedd yn 2 Terrace Row (a

gweld wal gefn Rehoboth o'r gwely) a mynychu Ysgol Sul, 'Band of Hope', y Gymdeithas Lenyddol ac oedfaon y Sul, rwy'n dra dyledus i'r fagwraeth Gristnogol ardderchog a gefais yn y capel. Ac er mai yng nghapel y Garn y dechreuais bregethu yn 21 oed ni fyddwn yr hyn ydwyf heb y sylfaen gadarn a gefais yn Rehoboth. Diolch fod Rehoboth a'i phobl yn dal i wasanaethu Teyrnas Iesu Grist dan arweiniad Wyn y Bugail.

W.J.Edwards

Bistro  
*Gannets*



Bwyd a Gwin Da  
7 St James Square, Aberystwyth  
**617164**  
Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30



**Glanyrafon**

**Teiars  
Aliniad Olwyn  
Ecsôsts  
Batris  
Brêcs  
Hongiad  
Bar tynnu  
Gwasanaeth  
MOT**



**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774**

**S4/C**  
Calon Cenedl  
ers 30 mlynedd

**Rhaglenni arbennig i ddathlu  
pen-blwydd S4C**

**S4C yn 30**  
Atgofon y gwylwyr a chipiau o'r archif  
ers dechrau S4C ar 1 Tachwedd 1982

**Plant y Sianel**  
Hanes cenedlaeth o Gymry gafodd  
eu geni 30 mlynedd yn ôl

**Gwynfor**  
Drama ddogfen am flwyddyn dyngedfennol ym  
mywyd Gwynfor Evans ac yn ymgyrch y Sianel

**Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
Cymanfa i ddathlu'r pen-blwydd



**30**



## HEN LUNIAU PAPUR PAWB



*Pwy yw'r rhain? Pryd dynnwyd y llun? A beth oedd yr achlysur? Dowch i'r Neuadd Goffa, Tal-y-bont fore Sadwrn 10 Tachwedd i gynnig eich atebion.*

Dros yr haf bu Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, wrthi'n sganio casgliad helaeth o hen ffotograffau Papur Pawb. Mae'r ffotograffau, dros ddwy fil ohonynt, yn dyddio o ddyddiau cynnar y papur yn yr 1970au ymlaen a bellach maent o ddiddordeb hanesyddol. Y bwriad yw eu gosod ar wefan Casgliad y Werin: [www.casgliadywerincymru.co.uk](http://www.casgliadywerincymru.co.uk) fel y gall pawb yn y byd eu gweld.

Ond cyn hynny, mae angen disgrifio'r llun a rhoi dyddiad iddynt. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen cymorth chwi'r darllenwyr i adnabod pwy neu beth sydd yn y ffotograffau hanesyddol hyn. Cynhelir bore coffi ac arddangosfa o rai o'r lluniau ar fore Sadwrn 10 Tachwedd yn y Neuadd Goffa, gan obeithio y daw nifer ohonoch yno i'n cynorthwyo i adnabod y lluniau.

**Iwan Jones**

**Gwasanaethau Pensaernïol**

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

**01970 832760**

## Y GAIR OLAF

Pan fo dyn yn symud o un man i'r llall i fyw mae'n sylwi ar bethau. Fel un a ddaeth yma ddeng mlynedd yn ôl mae gweld y darn tir o flaen y tafarnau yn cael ei anwybyddu yn brifo. Pam? Mae cael y Patsyn Glas yng nghanol y pentref yn ei wneud bron yn unigryw yn ein gwlad. Digon cyffredin yw'r 'Village Green' dros Glawdd Offa ac mae'r Sais yn eu dathlu ond, heblaw am Raeadr, ni allaf feddwl am eraill yng Nghymru ond rwy'n siwr bod nifer.

Mae'n bosib eich bod chi sy'n byw yma ers blyneddau ddim yn ei weld mwyach, rydych yn rhy gyfarwydd â'r parsel o dir ac yn cymryd dim sylw ohono. Nid yw'r miloedd a â heibio mewn car a bws yn ei weld ychwaith am nad oes dim i ddenu'r llygad i'r llecyn hyfryd; fe ddylai fod yn hardd a gwerth ei weld. Nid ei ddifetha yw'r

syniad ond ei harddu, tynnu sylw eraill, a ni'r trigolion hefyd, i'r adnodd gwerthfawr. Dylem fod yn clodfori a dathlu'r ffaith fod y fath lecyn bendigedig, unigryw gennym.

Y gwir plaen yw ei fod yn ddi-liw, ddi-raen, di-nod ac wedi ei ddiystyru am ry hir.

Bu'n fan cyfarfod ar un adeg, erbyn hyn prin yw'r achlysuron pan y'i ddefnyddir. Oni ddylid ystyried ei weddnewid, dod â lliw a bywyd i'r fangre? Mae'r Patsyn Glas wedi bod ar fy meddwl am ddeng mlynedd ac nid wyf yn fyr o syniadau ond a yw'r ewyllys ar droed yn y cylch i wneud rhywbeth?

Fy ngobaith i yw bod yr ychydig eiriau yma yn sbarduno trafodaeth ac nid y Gair Olaf yma fydd y gair olaf mewn gwirionedd.

Rhys Huws

## Gofal Traed Aber

**Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**  
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



**Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion**  
**i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: [cis@ceredigion.gov.uk](mailto:cis@ceredigion.gov.uk)**

**Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,  
Ceredigion, SA46 0PA

## GOLCHDY LLANBADARN

**CYTUNDEB GOLCHI**  
**GWASANAETH GOLCHI**  
**DWFES MAWR**  
**CITS CHWARAEON**

**GERAINT JAMES**  
**Ffôn: 01970 612459**  
**Mob: 07967235687**

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL



## GAREJ DAVMOR

**M.O.T., Gwasanaeth,**  
**Batris a Theiars**

**Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun**

**[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)**  
**Ffôn: 01970 832278**

# Chwaraeon

## Tipyn o gamp



**Afiaith**

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

## Pêl-droed

Am y tro cyntaf erioed mae tîm o Dal-y-bont wedi llwyddo i ennill un o brif wobrau Cystadleuaeth Pêl-droed Ieuencid y Waun. Cynhelir y gystadleuaeth yn Aberystwyth yn flynyddol ganol Medi ac eleni daeth Teirw Tal-y-bont i'r brig, gan ennill pob un o'r pum gêm. Tîm o fechgyn dan 11 oed yw'r Teirw ac yn ogystal â sgorio llond het o goliau, llwyddwyd i beidio ag ildio'r un gôl yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp. Pob lwc i'r Teirw ac i dimau eraill y dalgylch yn ystod y tymor.

*Chwith: Y teirw'n arddangos eu tariannau*

**James Memorials**

Am  
GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU

Gofynnwch am barmffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111



## Criced

*Uchod: Mae Clwb Criced Tal-y-bont yn datlu ei ben-blwydd yn 30 mlwydd oed eleni ac i nodi'r achlysur cynhaliwyd twrnament criced gwbl anffurfiol a hwyliog ar 8 Medi. Roedd rhai o gyn-chwaraewyr y clwb yno a braf oedd gweld bechgyn a merched o bob oedran yn cymryd rhan.*



## Golff

Llongyfarchiadau i Alan Prytherch, Ffwrnais, ar ennill Cwpan Canmlwyddiant Clwb Golff Borth ac Ynyslas. Cyflwynwyd y Cwpan iddo mewn noson wobrwyo arbennig a drefnwyd gan y Clwb ganol mis Medi. Hefyd yn y llun mae capten y Clwb, Peter Basnett, Bont-goch.

**K Hughes**

**Plymio a Gwresogi**

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235